

Rhif: WG33258



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Cymorth ar gyfer astudiaethau doethurol

Dyddiad cyhoeddi: 8 Rhagfyr 2017
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 2 Mawrth 2018

Cymorth ar gyfer astudiaethau doethurol

Ffurflen ymateb

i'r ymgynghoriad Eich enw: Rebecca Williams, Swyddog Polisi

Sefydliad (os yw'n berthnasol): UCAC

e-bost/rhif ffôn:

rebecca@ucac.cymru / 01970 639950

Eich cyfeiriad: UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth
SY23 2EU

Dylid dychwelyd ymatebion erbyn **2 Mawrth 2018** i:

Adran Addysg Uwch

Y Gyfarwyddiaeth Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

neu gellir cwblhau'r ffurflen yn electronig a'i hanfon i'r cyfeiriad isod:

e-bost: HEDConsultationsMailbox@llyw.cymru

Ein cwestiynau

1. Ydych chi'n cytuno y dylid darparu cymorth ar gyfer astudiaethau doethurol?

Cytunwn. Mae'r egwyddor yn bwysig, a chytunwn â'r rhesymeg a amlinellir yn y ddogfen ymgynghorol.

2. Ydych chi'n cytuno â'r pecyn cymorth arfaethedig fel yr amlinellir? Oes unrhyw agwedd y byddech chi'n ei newid? Pam?

- A oes unrhyw reswm dros gyfyngu'r cynnig i brifysgolion yn y DU? Teimla UCAC y gellid cyfiawnhau cyfyngu i sefydliadau addysg uwch yng Nghymru, er mwyn sicrhau bod cyllid Llywodraeth Cymru'n cefnogi sefydliadau Cymreig; ond os am ymestyn y cynnig – ac mae rhesymau hollol deilwng dros wneud hynny – a oes angen cyfyngu i'r DU? Mae'n bwysig meithrin unigolion â phrofiadau a chysylltiadau rhyngwladol, heb sôn am sgiliau ieithyddol, i gyfrannu at economi

Cymru.

- Gan mai bwriad y benthyciad yw cyfrannu at 'gostau dilyn astudiaethau doethurol (yn hytrach nag i dalu am ffioedd dysgu neu gostau byw yn benodol)', nid ydym yn cytuno â'r cynnig y dylid anghymhwyso'r sawl sydd yn derbyn (a) cyllid ysgoloriaeth ymchwil gan un o'r Cynghorau Ymchwil os yw honno'n ysgoloriaeth ffioedd yn unig (b) ffurfiau uniongyrchol eraill o gymorth gan y Llywodraeth ar gyfer costau cynhaliaeth a ffioedd (c) ysgoloriaeth ymchwil. Os yw unrhyw un o'r uchod yn gyfraniad penodol tuag at ffioedd neu gostau byw, nid ydynt yn diddymu'r angen am gyllid tuag at 'gostau dilyn astudiaethau doethurol'. Dull arall, petai angen, fyddai lleihau cyfanswm posib y benthyciad yn sgil cyllid o ffynonellau eraill.
- O ran amserlen dechrau ad-dalu (paragraff 51), nid ydym yn deall y rhesymeg dros ddechrau ad-dalu pedair mlynedd ar ôl dyddiad dechrau'r cwrs ar gyfer cyrsiau sy'n hirach na 4 mlynedd; wrth reswm, bydd y myfyrwyr dan sylw yn parhau i astudio ac felly ddim yn ennill cyflog, ac ddim mewn sefyllfa i ddechrau ad-dalu.

3. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn nad yw'r benthyciad arfaethedig yn gwneud unrhyw wahaniaeth o ran y nodweddion a warchodir gan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, ac eithrio oedran, wrth bennu cymhwysedd. Y nodweddion gwarchoddedig a nodir yn adran 4 Deddf Cydraddoldeb 2010 yw oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a thueddfryd rhywiol. Ydych chi'n meddwl bod yna faterion eraill y dylai Llywodraeth Cymru fod yn ymwybodol ohonynt a fyddai'n effeithio ar y nifer sy'n manteisio ar y benthyciad arfaethedig sydd ag unrhyw un o'r nodweddion gwarchoddedig? Os felly, pa gamau y gallai Llywodraeth Cymru eu cymryd i liniaru unrhyw effaith negyddol?

4. Ydych chi'n meddwl y byddai'r polisi hwn, o'i weithredu, yn cael effeithiau (boed yn gadarnhaol neu'n anffafriol) ar:

- y cyfle i bobl ddefnyddio'r Gymraeg;
- sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg?

5. Sut y gellid llunio neu ddiwygio'r polisi arfaethedig fel y byddai'n cael effeithiau cadarnhaol, neu mwy o effeithiau cadarnhaol, ar:

- y cyfle i bobl ddefnyddio'r Gymraeg;
- sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg?

6. Sut y gellid llunio neu ddiwygio'r polisi arfaethedig fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael llai o effeithiau andwyol ar:

- y cyfle i bobl ddefnyddio'r Gymraeg;

- sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg?

Atebwn cwestiynau 4, 5 a 6 ar y cyd. Nid yw'r cynigion yn mynd i'r afael o gwbl ag unrhyw faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg, ac mae hynny'n wendid yn y ddogfen ymgynghorol.

Yn sgil polisi Miliwn o Siaradwyr Llywodraeth Cymru, cynigiwn y dylid ystyried sut y gellid sicrhau, dan y cynigion hyn, bod cymhelliant ar gyfer (a) cyflawni rhywfaint o'r astudiaethau doethurol trwy gyfrwng y Gymraeg neu (b) gwella sgiliau Cymraeg ar hyd y continwmm ieithyddol yn ystod yr astudiaethau doethurol.

Dylid trafod posibiliadau ymarferol gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

7. Nodwyd rhai effeithiau negyddol posibl ym mharagraffau 36 a 37 (gostyngiad mewn ansawdd/safon a/neu gynnydd mewn astudiaethau o ddisgyblaethau lle allai fod llai o fudd economaidd). Beth yw eich barn am ba mor debygol yw hyn o ddiwydd, a pha mor sylweddol fydd yr effaith?
8. Yn eich barn chi, a ddylid cyfyngu mynediad at gyllid ar gyfer astudiaethau doethurol i fathau penodol o ddyfarniad a/neu bwnc? Er enghraifft, eu cyfyngu i achosion lle mae modd dangos bod budd uniongyrchol neu anuniongyrchol i'r cyhoedd? Gallai hyn gynnwys:
 - a) Cyfyngu cyllid ar gyfer astudiaethau doethurol i sefyllfaoedd lle roedd y goruchwyliwr wedi cyflwyno mewn grŵp ymchwil a enillodd dros y trothwy yn y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil.
 - b) Gallai hefyd gynnwys cyfyngu cyllid i feysydd pwnc lle mae tystiolaeth bod angen mwy o unigolion sy'n meddu ar gymhwyster yn y maes yng Nghymru yn ôl CCAUC neu ei gorff olynol sy'n gweithio gyda'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol. Gallai'r ymagwedd hon arwain at annog doethuriaethau mewn gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg, economeg, addysg, meddygaeth, a mathemateg.
9. Oes yna unrhyw faterion eraill ynghylch ein cynnig yr hoffech eu codi? Mae nifer o elfennau nad ydynt yn gwbl eglur o ddarllen y ddogfen ymgynghorol:
 - A yw 'preswyllo fel arfer yng Nghymru' yn cynnwys y rheiny a symudodd i Gymru er mwyn dilyn cyrsiau is-raddedig a chysiau lefel Meistr? Ac a yw'n cynnwys rheiny a symudodd i Gymru i ddilyn cwrs Meistr yn unig?
 - Cymrwn fod y cyfnod o dair i wyth mlynedd yn golygu'r cyfnod cofrestru, ac y gallai'r cyfnod fod yn hirach petai 'temporary withdrawal' yn ystod yr astudiaethau doethurol e.e. am resymau meddygol, mamolaeth.

- Cytunwn mewn egwyddor â'r cynnig i drin unrhyw fenthyciadau Meistr a doethuriaeth fel balans benthyciad unigol; mi ddylai hynny symleiddio'r trefniadau; fodd bynnag, os oes benthyciad is-raddedig ac un ôl-raddedig, bydd angen bod yn glir pa un sy'n cael ei dynnu o'r cyflog yn gyntaf, rhag ofn bod tynnu ad-daliad y benthyciad cyntaf yn tynnu'r cyflog o dan y trothwy ad-dalu
- Bydd angen bod yn gwbl glir ynghylch diffiniad 'cwblhau'r cwrs' at ddibenion cyfrifo pryd dechreuir yr ad-daliadau; ai dyddiad cyflwyno'r gwaith ymchwil, neu dyddiad y viva?
- Tybiwn fod Llywodraeth Cymru wedi rhag-amcangyfrifo'r cyfraddau ad-dalu a'r cyfraddau dileu balansau. O ystyried cyflogau cyfartalog proffesiynau addysg yng Nghymru, yn athrawon ysgol, neu'n ddarlithwyr addysg bellach neu addysg uwch, ac o ystyried y dulliau ac amserlenni ad-dalu, a lefelau'r dyledion tebygol, byddem yn tybio y bydd cyfradd uchel o falansau'n cael eu dileu ar ôl 30 mlynedd heb eu talu'n gyflawn.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddiennw, ticiwch yma.

